Clerc/Clerk: Anwen Jones
Cyfeiriad/Address: 10 Gorffwysfa, Dwyran, Ynys Mon, LL61 6YJ
Ffon/Tel: 07375781090
E-bost/E-mail: clerc@valley-community-council.wales
Gwefan: www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Personel
**7.00yh 08/07/2026**
Cyfarfod rhithiol ar teams

Minutes of the Finance and Personnel Committee
**7.00pm 08/07/2026**
Remote meeting on teams

**Presennol**
Cynghorwyr:
G Browne MBE (Cadeirydd), M Swaine Williams, N Tuck, H Williams

**Present**
Councillors:
G Browne MBE (Chair), M Swaine Williams, N Tuck, H Williams

**Hefyd yn bresennol**
A Jones Clerc

**Also present**
A Jones Clerk

| | Cymraeg | English |
|---|---|---|
| **1** | **Croeso**<br>Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.<br><br>Cafwyd ganiatad gan pawb yn bresennol i recordio'r cyfarfod er mwyn cynorthwyo gyda pharatoi'r cofnodion. | **Welcome**<br>Everyone was welcomed to the meeting by the Chair.<br>Permission was granted by all present to record the meeting in order to assist with the preparation of the minutes. |
| **2** | **Ymddiheuriadau**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. C Thornhill | **Apologies**<br>Apologies accepted by Cllr C. Thornhill. |
| **3.** | **Derbyn datganiadau o fuddiant personol a rhagfarnol**<br>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na rhagfarnol. | **To receive declarations of interest personal and prejudicial**<br>No personal or prejudicial interests were declared. |
| **4.** | **Caniatáu i'r cyhoedd siarad ar unrhyw eitem ar yr agenda neu ofyn cwestiynau (3 munud)**<br>Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol. | **To allow the public to speak on any items on the agenda or ask questions (3 minutes)**<br>No members of the public were present. |
| **5.** | **Camau gweithredu a materion yn codi o'r cofnodion blaenorol 08/04/2026 (fel y'u cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn 15/04/2026, cofnod 318/2526)**<br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion. | **Action and matters arising from previous committee minutes 08/04/2026 (as approved by Full Council on 15/04/2026, minute 318/2526)**<br>There were no matters arising from the minutes. |
| **6.** | **Adroddiad Monitro'r Gyllideb ar gyfer chwarter 1 o 2026/27**<br>Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro'r Gyllideb ar gyfer Chwarter 1 2026/27, fel y'i cyflwynwyd gan | **Budget Monitoring Report for quarter 1 of 2026/27**<br>The Committee received, considered and scrutinised the Quarter 1 Budget Monitoring Report for 2026/27, as presented by the Clerk |

y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (gweler yr adroddiad atodedig), a chraffwyd ei gynnwys.

**Penderfynwyd**: Argymell bod yr argymhellion a gynhwysir yn Adroddiad Monitro'r Gyllideb Chwarter 1 ar gyfer 2026/27 yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w hystyried a'u cymeradwyo (hefyd wedi eu rhestru ar ddiwedd y cofnodion hyn).
Cyn/Eil: NT/HW

and Responsible Finance Officer (see attached report).

**Resolved**: That the recommendations contained within the Quarter 1 Budget Monitoring Report for 2026/27 be recommended to Full Council for consideration and approval (also listed at the end of these minutes)
Prop/Sec: NT/HW

**7. Ceisiadau Rhoddion 2026/2027**

Ystyriodd y Pwyllgor y cais am rodd a dderbyniwyd gan Grŵp Cymunedol y Fali tuag at ddarparu blodau pentref ar gyfer 2026.

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd noddi un pot blodau pentref am gost o £60.00.

**Penderfynwyd**: Argymell bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo rhodd o £60.00 i Grŵp Cymunedol y Fali tuag at blodau'r pentref ar gyfer 2026.
Cyn/Eil: NT/MSW.

**Donation requests 2026/2027**

The Committee considered the donation request received from Valley Community Group towards the provision of village flowers for 2026.

Following discussion, it was resolved to sponsor one village flower planter at a cost of £60.00.

**Resolved**: To recommend that Full Council approve a donation of £60.00 to Valley Community Group towards the village flowers for 2026.
Prop/Sec: NT/MSW

**8. Llofnodwyr cyfrifon banc**

Nododd yr Aelodau ohebiaeth gan HSBC yn cadarnhau bod diweddariad wedi'i wneud i fandad banc y Cyngor. Nodwyd fod pedwar llofnodwr awdurdodedig yn parhau ar gyfrifon banc HSBC y Cyngor.

**Bank Signatories**

Members noted correspondence from HSBC confirming an update to the Council's bank mandate. It was noted that four authorised signatories remain on the Council's HSBC accounts.

**9. Newidiadau i werthoedd ardrethol – Maes Parcio a Meysydd Pêl-droed**

Cyflwynodd y Clerc wybodaeth ynghylch newidiadau i werthoedd ardrethol y Maes Parcio a'r Caeau Pêl-droed ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.

Mae'r gwerthoedd ardrethol fel a ganlyn:
**Maes Parcio** Gwerth Ardrethol 2026/27 o £1,000 (sef gostyngiad o £2,550 o'i gymharu â 2025/26).
**Cae Pêl-droed** Gwerth Ardrethol 2026/27 o £2,000 (sef cynnydd o £1,150 o'i gymharu â 2025/26).

Yn dilyn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, nododd yr Aelodau y gwerthoedd ardrethol diwygiedig a gofynnwyd i'r Clerc geisio rhagor o gyngor gan Gyngor Sir Ynys Môn ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor fel y bo'n briodol.

**Changes to rateable values – Car Park and Football Fields**

The Clerk presented information relating to changes to the rateable values of the Car Park and Football Fields for the current financial year.

The rateable values are as follows:
**Car Park** 2026/27 Rateable Value £1,000 (decrease of £2,550 compared to 2025/26)
**Football Ground** 2026/27 Rateable Value £2,000 (increase of £1,150 compared to 2025/26)

Following consideration of the information provided, Members noted the revised rateable values and requested that the Clerk seek further advice from the Isle of Anglesey County Council and report back to the Committee as appropriate.

**10. Eitemau er gwybodaeth yn unig**

Nid oedd unrhyw eitemau er gwybodaeth yn unig.

*Daeth y cyfarfod i ben 7.44yh*

**Items for information only**

There were no items for information only.

*The meeting ended at 7.44pm*

| **Rhestr lawn o'r argymhellion i'r Cyngor Llawn:-** | **Complete list of recommendations to Full Council:-** |
|---|---|
| **Argymhelliad 1:** | **Recommendation 1:** |
| Argymell bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r gyllideb ddiwygiedig o £82,860.51 ar gyfer 2026/2027. | To recommend that the Full Council approve the revised budget of £82,860.51 for 2026/2027. |
| **Argymhelliad 2:** | **Recommendation 2:** |
| Argymell bod y Cyngor Llawn yn derbyn y wybodaeth monitro cyllideb ar gyfer Chwarter 1 a nodi sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor ar 30/06/2026. | To recommend that the Full Council receive the budget monitoring information for Q1 and note the Council's current financial position at 30/06/2026. |
| **Argymhelliad 3:** | **Recommendation 3:** |
| Argymell bod y Cyngor Llawn yn nodi'r sefyllfa alldro a ragwelir ar gyfer diwedd blwyddyn ariannol 2026/27, yn seiliedig ar y rhagolwg ar ddiwedd Chwarter 1. | To recommend that the Full Council note the projected year-end outturn position for 2026/27 as forecast at the end of Quarter 1. |
| **Argymhelliad 4:** | **Recommendation 4:** |
| Argymell bod y Cyngor Llawn yn derbyn ac yn adolygu'r cymodiad banc a balansau'r cyfrifon banc ar 30 Mehefin 2026 ac yn cadarnhau eu bod yn cyd-fynd â chofnodion cyfrifyddu'r Cyngor. | To recommend that Full Council receive and review the bank reconciliation and bank balances as at 30 June 2026 and confirm that they agree with the Council's accounting records. |
| **Argymhelliad 5:** | **Recommendation 5:** |
| Argymell bod y Cyngor Llawn yn derbyn ac yn adolygu Adroddiad Monitro Cyllideb Ynys Wen ar ddiwedd Chwarter 1 ac yn nodi'r sefyllfa ariannol gyfredol. | To recommend that Full Council receive and review the Ynys Wen budget monitoring information at the end of Quarter 1 and note the current financial position. |
| **Argymhelliad 6:** | **Recommendation 6:** |
| Argymell bod y Cyngor Llawn yn nodi sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ar 30 Mehefin 2026. | To recommend that Full Council note the reserve position at 30 June 2026. |
| **Argymhelliad 7:** | **Recommendation 7:** |
| Argymell bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo rhodd o £60.00 i Grŵp Cymunedol y Fali tuag at blodau'r pentref ar gyfer 2026. | To recommend that Full Council approve a donation of £60.00 to Valley Community Group towards the village flowers for 2026. |